Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Bro Alun
# Delamere Avenue
# Gwersyllt
# Wrecsam
# LL11 4NG

# Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/06/2017**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Bro Alun ar gampws Ysgol Bro Alun yng Ngwersyllt ger Wrecsam. Agorwyd y lleoliad ym Mis Medi 2013 fel lleoliad gwirfoddol wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Plant 1989. Mae'n darparu gofal ac addysg mewn sesiynau bore a phrynhawn i blant hyd at bedair oed trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cylch meithrin o dan arweiniad y Mudiad Meithrin yw hwn ac mae ar agor am 39 wythnos y flwyddyn, gyda sesiynau dwy awr hanner fore a phrynhawn, bum diwrnod yr wythnos yn ystod tymhorau'r ysgol. Adeg yr arolygiad, roedd 40 o blant tair oed wedi'u cofrestru. Mae 13 ohonynt wedi'u hariannu a 3 yn blant Dechrau'n Deg. Yn ogystal, mae 27 o blant yn derbyn addysg Meithrin Mwy.

Ychydig iawn o'r plant hyn sy'n dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Saesneg yw iaith y cartref bron pob un ohonynt. Nid oes un plentyn sydd â'r Saesneg yn ail iaith iddynt a dim ond ychydig iawn sy'n hanu o gefndir lleiafrifol ethnig. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad.

Mae nifer y plant wedi cynyddu'n fawr ers y flwyddyn ddiwethaf. Erbyn hyn, mae 11 o ymarferwyr yn cael eu cyflogi yn y lleoliad. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers agor y lleoliad.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar 9 Medi, 2015. Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- llawer o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn ar draws y chwe maes dysgu
- llawer o blant yn cymhwyso eu medrau allweddol yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y meysydd dysgu
- llawer o blant yn ymroi'n effeithiol i'w gweithgareddau dysgu yn yr ardaloedd gwaith mewnol ac allanol
- medrau llythrennedd Cymraeg y mwyafrif o blant yn gwbl briodol i'w hoed, gallu a'u cefndir ieithyddol
- bron pob un o'r plant yn dod i'r lleoliad yn hapus ac, ar y cyfan, yn gweithio'n annibynnol wrth ymgymryd â thasgau sy'n gyfarwydd iddynt
- y plant yn frwdfrydig wrth eu gweithgareddau ac yn dyfalbarhau'n effeithiol â thasgau amrywiol
- ymarferwyr yn darparu amrywiaeth dda o brofiadau i blant sy'n cynnwys cyfleoedd iddynt arbrofi a darganfod
- ymarferwyr yn cydweithio'n dda iawn gyda'i gilydd

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd a'i chyd-ymarferwyr weledigaeth gadarn ar gyfer datblygu cyfeiriad clir i'r lleoliad
- ymdeimlad cryf o dîm yn y lleoliad, gyda'r ymarferwyr i gyd yn rhannu cyfrifoldebau yn effeithiol
- proses hunanarfarnu'r lleoliad yn gadarn
- rheolwyr ac arweinydd y lleoliad yn gweithredu'n llwyddiannus i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant
- cysylltiadau cadarn iawn gyda'r ysgol gynradd yn rhoi dilyniant clir i waith y lleoliad.

## Argymhellion

A1 Cynllunio'n benodol i ddatblygu medrau TGCh plant ar draws y meysydd dysgu

A2 Darparu cyfleoedd i'r plant symud yn rhydd rhwng yr ardal fewnol ac allanol wrth ddewis gweithgareddau

A3 Sicrhau bod y drefn o olrhain cynnydd plant yn cael ei defnyddio'n effeithiol er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn ar draws y chwe maes dysgu. Maent yn cymhwyso eu medrau allweddol yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y meysydd hynny ac yn ymroi'n effeithiol i'w gweithgareddau dysgu yn yr ardaloedd gwaith mewnol ac allanol. Mae'r mwyafrif yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac maent yn ymholgar wrth fynd i'r afael â thasgau newydd.

Mae medrau llythrennedd y mwyafrif yn gwbl briodol i'w hoed, gallu a'u cefndir ieithyddol. O fewn y meysydd sy'n gyfarwydd iddynt, mae llawer o'r plant yn dechrau siarad yn hyderus gydag oedolion cyfarwydd, gan ddefnyddio geirfa gynyddol sy'n addas i'r cyd-destun yn gyson. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau ac yn eu dilyn yn effeithiol.

Maent yn dangos diddordeb mawr mewn llyfrau a'u cynnwys, ac yn eu trin a'u trafod yn effeithiol fel darllenwyr yn y cornel darllen. Maent yn mwynhau edrych ar lyfrau storïau a ddarllenwyd iddynt, neu sy'n ymwneud â thema gyfredol y lleoliad. Mae bron pob plentyn yn ymateb â diddordeb i storïau gan ateb cwestiynau am y cynnwys yn briodol.

Mae bron pob un yn creu marciau yn effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent, sialc, dŵr a phensiliau ar draws lleiafrif o'r ardaloedd dysgu, yn arbennig yn yr ardal allanol. Mae mwyafrif o'r plant yn rheoli pensel i ffurfio siapau a dilyn patrymau yn lled gywir.

Mae llawer o'r plant yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Gall y rhan fwyaf o'r plant gyfri i ddeg yn hyderus. Mae bron pob un yn hyderus wrth ymuno i ganu rhigymau rhif neu gyfrif gwrthrychau ar draws yr ardaloedd dysgu, er enghraifft wyau yn y bocs, neu anifeiliaid fferm. Mae llawer yn creu patrymau a didoli gwrthrychau yn llwyddiannus yn ôl priodweddau penodol, er enghraifft didoli ceir yn ôl lliw neu faint.

Mae llawer yn dyfalbarhau'n dda wrth eu gweithgareddau yn ystod cyfnodau dewis rhydd ac yn datrys problemau yn annibynnol, er enghraifft wrth arbrofi gydag arllwys dŵr o un cynhwysydd i'r llall. Mae mwyafrif y plant yn ddysgwyr effeithiol ac yn barod i fentro a dysgu wrth wneud camgymeriadau ar adegau.

Gyda'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt, mae medrau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant yn datblygu'n briodol. Maent yn hyderus wrth chwarae gyda theganau electronig, ac yn defnyddio camera digidol yn llwyddiannus i dynnu lluniau a chofnodi gwaith maent wedi ei fwynhau. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio offer cyfrifiadurol yn ddigon cyson i gyfathrebu syniadau yn llwyddiannus.

Mae medrau corfforol y plant bron i gyd yn datblygu'n gadarn. Maent yn ymroi i drin pensiliau, sisyrnau, a brwsys paent yn gynyddol ofalus a chywir, ac yn gyrru ceir a beiciau amrywiol yn hyderus iawn yn yr ardal allanol. Maent yn mwynhau gweithgareddau yn yr awyr agored.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn dod i'r lleoliad yn hapus ac, ar y cyfan, yn gweithio'n annibynnol wrth ymgymryd â thasgau sy'n gyfarwydd iddynt. Maent yn frwdfrydig wrth eu gweithgareddau ac yn dyfalbarhau'n effeithiol â thasgau amrywiol. Mae'r mwyafrif yn dechrau gweithio gyda'i gilydd yn hwylus, er enghraifft wrth gyd-chwarae yn y tywod neu gyda dŵr yn yr ardal allanol ac wrth chwarae rôl yn y caffi neu swyddfa milfeddyg. Maent bron i gyd yn cydweithio'n dda ag oedolion cyfarwydd ac yn cymryd rôl weithredol yn eu dysgu. Mae'r plant yn cyfrannu'n effeithiol at gynllunio gwaith trwy awgrymu a datblygu gweithgareddau i gyfoethogi'r ddarpariaeth barhaus. Er enghraifft, datblygwyd y swyddfa milfeddyg wrth i'r plant gario anifeiliaid tegan i'r cornel chwarae rôl.

Mae'r plant bron i gyd yn gwrtais ac, ar y cyfan, yn barod i aros tro wrth ymgymryd â'u gweithgareddau neu wrth aros i fynd allan neu ddod yn ôl i fewn i'r adeilad. Yn gyffredinol, mae'r mwyafrif yn rhannu adnoddau'n briodol ac yn rhyngweithio â'i gilydd yn aeddfed.

Mae bron pob un yn cymryd eu tro i olchi eu dwylo yn ofalus ar ôl bod yn y tŷ bach a chyn amser byrbryd. Maent hefyd yn deall bod ffrwythau a llysiau yn fwydydd iach ac maent yn gwneud dewisiadau yn annibynnol wrth ddewis y bwyd yr hoffent ei fwyta. Mae'r rhan fwyaf yn gwrtais wrth ei gilydd a chydag oedolion.

Maent yn ymgymryd â gweithgareddau corfforol iachus yn eiddgar wrth chwarae gyda theganau mawr ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr awyr agored.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i'r plant, yn unol â gofynion fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Maent yn darparu amrywiaeth dda o brofiadau iddynt, ac yn cynnwys cyfleoedd priodol iddynt arbrofi a darganfod.

Mae'r cynlluniau gwaith wedi eu strwythuro'n dda. Mae'r cynllun tymhorol yn nodi'n glir y ddarpariaeth ar draws y chwe maes dysgu ac ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, a rhifedd y plant ar draws y cwricwlwm. Maent hefyd yn nodi'n glir sut i gyfoethogi'r ardaloedd dysgu amrywiol i sicrhau her briodol i blant.. Mae'r cynllunio tymor byr yn darparu gweithgarwch ffocws sydd wedi ei strwythuro'n gadarn i ddatblygu medrau plant.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd addas i blant ddefnyddio amrywiaeth o offer TGCh i ddatblygu eu medrau ac i gefnogi eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth hon wedi ei chynllunio'n ddigon manwl i sicrhau cynnydd a dilyniant.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth barhaus yn yr ardaloedd dysgu mewnol ac allanol yn briodol ac yn cynnig dewis da o weithgareddau i'r plant. Caiff y ddarpariaeth honno ei hymestyn yn effeithiol gan dasgau addas sy'n berthnasol i thema gyfredol y dosbarth.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cyfleoedd priodol i'r plant wneud dewisiadau annibynnol ynglŷn â'u gweithgareddau yn yr ardaloedd y tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae cyfleoedd da i blant ddatblygu eu medrau llafar a gwrando yn llwyddiannus mewn sesiynau canu a stori, ac mae'r ardaloedd dysgu yn sicrhau profiadau addas iddynt ddatblygu eu medrau rhifedd ac, i raddau llai, eu medrau ysgrifennu. Fodd bynnag, nid yw'r plant yn cael digon o gyfleoedd i symud yn rhydd rhwng yr ardal fewnol a'r ardal allanol.

Mae darpariaeth bwrpasol i blant ddatblygu eu medrau corfforol ar draws yr ardaloedd dysgu. Er enghraifft, cânt gyfleoedd effeithiol i reoli offer gwneud marciau ar amrywiol arwynebedd, trin offer cegin yn y gegin fwd, ac i chwarae â theganau mawr yn yr ardal allanol.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn elwa o ymweliadau gan bobl o du allan i'r sefydliad. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae nyrs, postmon a phlismon wedi ymweld â'r lleoliad i siarad â'r plant. Mae'r ymarferwyr hefyd yn sicrhau bod cyfleoedd da iddynt ymweld â mannau penodol i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i godi eu hymwybyddiaeth o'u hardal leol. Er enghraifft, bu'r plant ar ymweliad â siop anifeiliaid anwes fel rhan o'r thema 'Anifeiliaid', ac maent yn ymweld â choedwig leol i ehangu gwybodaeth y plant o'r byd o'u cwmpas.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol i gyfoethogi geirfa Gymraeg y plant trwy fodelu iaith yn gadarn. O ganlyniad, mae medrau llafar Cymraeg bron pob un o'r plant yn datblygu'n briodol. Mae'r lleoliad hefyd yn cynllunio'n briodol i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o'r dimensiwn Cymreig, a diwylliant Cymru. Er enghraifft, mae cyfleoedd da i blant ddathlu gwyliau Cymreig fel Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi yn ogystal â chymryd rhan mewn cyngherddau a pherfformiadau yn y gymuned leol gyda phlant yr ysgol gynradd.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn cydweithio'n dda iawn gyda'i gilydd ac yn sicrhau bod cyfleoedd effeithiol i'r plant ddatblygu eu medrau ar draws y chwe maes dysgu.

Mae gweithgareddau dyddiol y lleoliad yn drefnus a hwylus. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn gyson weithgar yn ystod pob sesiwn. Mae'r ymarferwyr wedi magu perthynas dda gyda'r plant, sy'n amlwg o'r eiliad mae'r plant yn cyrraedd y lleoliad. Mae pob ymarferwr yn fodel iaith cadarn, sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar y plant. Mae'r ymarferwyr i gyd yn adnabod y plant a'u hanghenion yn dda, ac maent yn defnyddio cwestiynau'n bwrpasol i'w herio i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae hyn yn datblygu gallu'r plant i feddwl drostyn nhw eu hunain, a gweithredu'n annibynnol. Mae'r gweithgareddau ffocws yn herio plant o bob gallu i gyflawni'n dda. Maent wedi eu cynllunio i ddatblygu medrau penodol y plant yn effeithiol.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau asesu cadarn. Mae canmoliaeth lafar i'r plant am eu hymdrechion yn amlwg, ac yn rhoi hyder iddynt ddyfalbarhau. Mae'r ymarferwyr i gyd yn arsylwi'n gyson ar y plant wrth eu gweithgareddau ac yn nodi unrhyw gynnydd arwyddocaol. Caiff yr arsylwadau hyn eu cofnodi'n gryno mewn llyfryn arsylwadau priodol yn ddyddiol, a chânt eu defnyddio'n effeithiol i roi cyfeiriad i gynlluniau gwaith dilynol.

Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi dechrau olrhain cynnydd y plant yn effeithiol er mwyn creu proffil clir o gyflawniad a chyrhaeddiad pob plentyn. Fodd bynnag, nid yw'r drefn hon wedi cael digon o amser i wreiddio er mwyn galluogi'r ymarferwyr i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant.

Trwy sgyrsiau anffurfiol, a bore agored yn ystod tymor yr haf, caiff y rhieni wybodaeth gyflawn am gynnydd eu plant. Mae cyswllt agos rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni, a chaiff unrhyw fater ei drafod yn ddiymdroi.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadaeth y lleoliad i hyrwyddo hylendid, bwyta'n iach a chadw'n heini yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant bob amser yn golchi eu dwylo cyn amser byrbryd, ac ar ôl bod i'r tŷ bach. Mae amser byrbryd yn gyfle gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau cymdeithasol pwysig a'u hymwybyddiaeth o fwydydd iach. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y plant yn defnyddio'r biniau sbwriel pwrpasol sydd ar gael ar gyfer ailgylchu gweddillion y ffrwythau.

Mae darpariaeth effeithiol yn bodoli ar gyfer datblygu medrau corfforol plant a chodi eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn yr ardal allanol, er enghraifft trwy chwarae ar deganau mawr ac ymweld ag ardaloedd chwarae'r ysgol gyfagos. Mae'r profiadau hyn yn datblygu lefelau ffitrwydd y plant ac yn eu helpu i fwynhau gweithgarwch corfforol.

Mae gan y lleoliad ddarpariaeth dda ar gyfer hybu datblygiad personol a chymdeithasol y plant. Er enghraifft, mae cyfleoedd priodol i blant benderfynu ar yr hyn yr hoffent ei wneud yn ystod sesiynau. Cânt eu hannog i ofyn am gymorth pan fo angen, a gwnânt hynny'n hyderus.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd priodol i gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol ar eu pennau eu hunain neu yng nghwmni plant yr ysgol gynradd sydd ar yr un safle. Er enghraifft, maent yn cynnal cyngerdd Nadolig ar gyfer rhieni, ac yn dathlu Diwrnod y Llyfr trwy annog plant i ddod â llyfrau gyda nhw i'r lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn darparu profiadau effeithiol er mwyn datblygu ymwybyddiaeth foesol ac ysbrydol y plant. Ar ddiwedd y sesiwn, maent yn arwain y plant mewn gweddi fer. Maent yn hybu a modelu ymddygiad cwrtais a da yn gyson, sy'n golygu bod plant yn dangos parch at ei gilydd a thuag at oedolion.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n briodol i hybu dealltwriaeth y plant o ddiwylliannau a chrefyddau eraill, er enghraifft trwy roi cyfleoedd iddynt wisgo dillad gwahanol yn y cornel chwarae rôl a thrwy ei droi'n fwyty Tsieineaidd.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol i fodloni gofynion plant sydd ag anghenion dysgu neu gymdeithasol ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau i gyfeirio plant at asiantaethau sy'n darparu cefnogaeth addas, pe bai angen.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad, sydd mewn ystafell bwrpasol yn adeilad newydd yr ysgol gynradd, yn gymuned hapus a chroesawgar lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal i'r holl weithgareddau. Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais priodol ar ofal a pharch. Mae'r ethos Cymraeg a Chymreig yn gadarn ac yn rhan greiddiol o'r gweithgareddau.

Mae'r ystafell a'r ardal allanol yn briodol i fodloni gofynion y ddarpariaeth ac anghenion y plant. Mae'r arweinydd wedi trefnu'r ardaloedd dysgu i hyrwyddo athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Maent yn ddeniadol ac yn cynnwys adnoddau addas i gefnogi datblygiad y plant ar draws y chwe maes dysgu. Mae'r waliau'n cynnwys arddangosfeydd lliwgar sy'n symbylu'r dysgu, ac yn dathlu gwaith y plant mewn modd diddorol. Ar y cyfan, mae gan y lleoliad adnoddau da sy'n atgyfnerthu'r dysgu yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r ardal leol i atgyfnerthu profiadau'r plant, er enghraifft trwy fynd â nhw i'r ysgol goedwig neu barc chwarae lleol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd a'i chyd-ymarferwyr weledigaeth gadarn ar gyfer datblygu cyfeiriad clir i'r lleoliad. Mae'n canolbwyntio'n dda ar wella'r ddarpariaeth a sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd da. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda'r pwyllgor rheoli a'r rhieni, ac yn gweithredu'n unol â hi yn gyson.

Mae'r ymarferwyr yn cyfarfod yn ddyddiol i drafod materion o bwys ar gyfer y diwrnod, ac yn wythnosol i drafod cynnydd y plant, ac i gynllunio gwaith. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n dda ar faterion sy'n ymwneud â chynnydd a lles, ac ar sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithiol.

Mae ymdeimlad cryf o dîm yn y lleoliad, gyda'r ymarferwyr i gyd yn rhannu cyfrifoldebau yn effeithiol, gan gydweithio'n dda iawn. O ganlyniad, mae rhediad dyddiol y lleoliad yn llyfn, ac mae cynnydd a lles plant yn ganolog i'w weithgarwch.

Mae'r holl bolisïau statudol yn eu lle, ac wedi eu diweddaru'n briodol. Mae blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn cael sylw addas. Er enghraifft, mae pwyslais clir ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gorff gweithgar, gyda swyddogion effeithiol sy'n sicrhau parhad i'w weithgarwch. Mae aelodau'r pwyllgor yn cefnogi gwaith y lleoliad yn dda ac yn ymwybodol iawn ac yn gweithio'n gyson i sicrhau cefnogaeth a chyllid i'r lleoliad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae proses hunanarfarnu'r lleoliad yn gadarn, ac yn cynnwys yr ymarferwyr i gyd. Mae amserlen ddwy flynedd addas yn ei lle, ac mae'r ymarferwyr yn ei dilyn yn effeithiol, gan gofnodi'r cynnydd yn glir mewn llyfryn parhaus. Yn nhymor yr Hydref, mae'r cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'n cael eu gwerthuso.

Er yn gryno, mae'r ddogfen hunanarfarnu yn fanwl ac yn ymwneud yn briodol ag arfarnu holl agweddau ar waith y lleoliad. Mae'r cynnwys yn arfarnol ac yn rhoi sylw priodol i adnabod cryfderau a'r blaenoriaethau gwella.

Mae blaenoriaethau cynllun gweithredu'r lleoliad ar gyfer plant addysg gynnar yn codi'n uniongyrchol o ganfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'n canolbwyntio'n briodol ar gynnydd a lles plant ac ar gyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae'n nodi'n glir yr hyn sydd angen ei wella, meini prawf llwyddiant ar gyfer pob blaenoriaeth a gwerthusiad ohonynt ar ôl y cyfnod gweithredu. Fodd bynnag, nid yw'n nodi'n glir faint o gyllid sydd ei angen i weithredu pob un o'r blaenoriaethau gwella.

Yn ystod y cyfnod ers ei sefydlu, mae rheolwyr ac arweinydd y lleoliad wedi dangos y gallu i weithredu'n llwyddiannus i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad gysylltiadau buddiol â'r rhieni, gyda gwybodaeth briodol yn cael ei rhannu'n gyson rhwng y naill ochr a'r llall. O ganlyniad, mae gan rieni wybodaeth eglur am waith y lleoliad a chynnydd eu plant, ac maent yn hapus

Mae cysylltiadau cadarn iawn yn bodoli rhwng y lleoliad â'r ysgol gynradd leol, sydd ar yr un safle. Mae hyn yn gymorth da i baratoi'r plant ar gyfer trosglwyddo yno pan ddaw'r amser. Yn benodol, mae pennaeth yr ysgol, trwy gymryd rôl y person cofrestredig a chynorthwyo gyda phenodi staff a materion rheolaethol eraill, wedi datblygu perthynas weithio dda gyda'r ymarferwyr. Mae'r plant yn ymweld â dosbarth y Cyfnod Sylfaen yn ystod y tymor cyn trosglwyddo. Mae trefniadau da hefyd yn bodoli i blant y lleoliad ddefnyddio adnoddau'r ysgol gynradd, er enghraifft y cae chwarae a'r ysgol goedwig.

Mae'r lleoliad yn manteisio'n dda ar gefnogaeth yr awdurdod lleol. Mae ymarferwyr yn derbyn sesiynau hyfforddiant perthnasol a chefnogaeth effeithiol, er enghraifft i ddatblygu defnydd o'r proffil Cyfnod Sylfaen i cynllunio gweithgareddau addas. Mae gweithdrefnau clir ar waith i sicrhau bod y lleoliad yn manteisio ar wasanaethau arbenigol yr awdurdod lleol, pe bai angen. Yn yr un modd, maent yn elwa'n dda o arweiniad a hyfforddiant Mudiad Meithrin. Mae'r swyddog cyswllt lleol yn ymwelydd cyson, ac yn rhoi cyngor a hyfforddiant ar faterion polisi, iechyd a diogelwch a rhai elfennau o'r ddarpariaeth. Mae'r lleoliad hefyd yn manteisio'n dda ar gyfleoedd i wella cymwysterau ymarferwyr trwy hyfforddiant gan y mudiad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o staff cymwys sy'n cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Mae'r arweinydd wedi dyrannu cyfrifoldebau'n glir ac, o ganlyniad, mae'r lleoliad yn

gweithredu'n hwylus. Mae pob aelod o staff yn cael cyfleoedd priodol i fanteisio ar hyfforddiant i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am nifer o feysydd perthnasol.

Mae'r drefn ar gyfer rheoli perfformiad yn effeithiol. Mae'n cynnwys arfarniadau blynyddol ar ddiwedd tymor yr haf, a gweithgareddau monitro parhaus ar hyd y flwyddyn. Caiff rheoli perfformiad yr arweinydd ei weithredu gan y cadeirydd ar ran y pwyllgor rheoli.

Yn gyffredinol, mae'r lleoliad yn rheoli'r ystod dda o adnoddau yn llwyddiannus i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ymarferwyr yn monitro a gwerthuso'r defnydd a wneir o'r adnoddau'n effeithiol.

Mae trysorydd ac is-drysorydd y pwyllgor rheoli yn cymryd cyfrifoldeb am reolaeth ariannol y lleoliad, gan gynnwys taliadau gan rieni a chyfraniadau gan yr awdurdod lleol i ariannu plant tair oed a phlant Dechrau'n Deg. Caiff y gwaith hwn ei gyflawni'n effeithiol, ac mae'r pwyllgor yn weithredol iawn wrth drefnu gweithgareddau codi arian ar hyd y flwyddyn.

Oherwydd y ddarpariaeth effeithiol, ac ansawdd da yr addysgu, mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |